

Rygbi Cerdded Pont-y-clun

Mae Rygbi Cerdded Pont-y-clun yn croesawu dynion a menywod o bob gallu ac oedran, boed yn gyn-chwaraewyr neu'n ddechreuwr, o bobl yn eu harddegau hwyr i bobl yng nghanol eich 70au. Mae'r grŵp yn darparu rhwydwaith cymdeithasol da i bawb sy'n cymryd rhan. Maen nhw wedi gwneud yn dda yn dilyn y pandemig, a bellach yn cynnig dwy sesiwn yr wythnos unwaith eto.

Mae nifer fawr yn dod i'w sesiynau ac maen nhw wedi cymryd rhan mewn sawl twrnamaint Rygbi Cerdded yng Nghaerdydd, Crucywel, Cwmbrân a Ffynnon Taf. Maen nhw wedi cynnal eu hachlysur llwyddiannus iawn eu hunain ym Mhont-y-clun hefyd. Ym mhob achlysur maen nhw'n hybu eu gwerthoedd gan roi amser chwarae cyfartal i bawb, gan ganolbwyntio ar gyfranogiad, nid ennill.

